Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cyfarfod Arbennig**
**Dydd Gwener Rhagfyr 16eg 2022**
**(Microsoft Teams)**

# NODIADAU

**PRESENNOL:**

Keith Maher (Pen Y Dre High) - Cadeirydd
Sarah Hopkins (Bendigaid Carlo Acutis)
Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)
Laurence Matuszczyk (Ysgol Gynradd Trefedward/ Troedyrhiw)
Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbenig Greenfield)
Ryan Morgan (Parneriaeth Ddysgu Taf Bargoed)
Simone Roden (Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen)
Sarah Townsin (Ysgol Coed Y Dderwen)
Alwen Bowen (Ysgol Rhyd Y Grug)
David Anstee (Ysgol Y Graig)
Steve Jones (Prif Swyddog Cyllid)
Ian Kent (Cyfrifydd Ysgolion)
Sue Walker (Cyfarwyddwr Addysg)
Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio a Gwella Ysgolion)

**HEFYD YN BRESENNOL :**

Joanna Lewis (Rheolwr LMS)
Gary Winston (Clerc i'r Fforwm)

| Rhif | TRAFODAETH/GWEITHRED |
|---|---|
| **1.** | **Croeso**<br>Croesawodd y cadeirydd bawb a diolch iddynt am eu presenoldeb. |
| **2.** | **Setliad Refeniw 2023/2024**<br>Darparodd Mr S Jones fanylion Setliad Refeniw drafft ar gyfer 2023/2024 a'r manylion allweddol canlynol:<br><br>• Cynnydd Merthyr Tudful yw 7.0%. Cyfartaledd cynnydd Cymru gyfan yw 7.9% a Merthyr Tudful yw'r 18fed uchaf yng Nghymru.<br>• Y cynnydd dangosol oedd 3.5%felly mae cynnydd wedi bod, ond mae yn is na'r 17.5%a oedd angen arnom.<br>• Y setliad dangosol ar gyfer 2024/2025 yw 3.1% (sy'n gynnydd o'r amcangyfrif blaenorol o 2.4%).<br>• Cyfalaf – mae cynnydd wedi bod o £536,000 i £3.168 milliwn yn 2023/2024.<br><br>Oblygiadau i gyllideb 2023/2024<br>Mae'r gwarged i'r Cyngor wedi ei hail gyfrifo ac mae nawr yn £11.5 milliwn. Mae'r Cyngor wedi cytuno i ysgolion ddod o hyd i arbedion o £2.5 milliwn o'u cyllidebau. |

| Rhif | TRAFODAETH/GWEITHRED |
|---|---|
| | Cytunwyd y byddai y dyfarniad cyflog uwch na'r disgwyl ar gyfer athrawon a staff na sy'n dysgu ar gyfer 2022/2023 gael ei gyllido'n ganolog.<br><br>Bydd y lleihad dyfarniad fformiwla ar gyfer 2023/2024 yn cael ei weithredu ar ol cynnyddu cyllidebau ar gyfer codiadau cyflog, newid i niferoedd disgyblion, cynnydd mewn costau tanwydd a chwyddiant.<br><br>AL: Rydym yn gweithio ar y fformiwla cyllido ar hyn o bryd i adlewyrchu y cynnydd yn niferoedd disgyblion ac yn gobeithio rhannu gwybodaeth yn wythnos gyntaf y tymor nesaf. Rydym wedi modelu yr effaith ar gyllideb ysgolion a byddwn yn rhannu rhain yn y cyfarfod grwp ym mis Ionawr. Bydd rhaid ymgynghori gyda Bwrdd Llywodraethu pob ysgol ar y newidiadau.<br><br>**RM: Yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ar grantiau?**<br>SW: Maent yn debygol o aros yr un peth ond bod trafodaeth yn digwydd ar sut maent yn cael eu dosbarthu.<br><br>**KM: Roedd yn ddiddorol gweld bod yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn derbyn y lefel isaf o gynnydd ariannu. Mae'n debyg bod y fformiwla yn un cymleth.**<br>SJ: Ydy, mae'n dechnegol iawn ac yn seiliedig ar yr Asesiad Gwariant Safonol. Pan fo cynnydd yn uwch, mae'n dueddol o ffafrio ardaloedd gyda bandiau treth uwch.<br><br>**KM: Oes posib ymglymu eto gyda Llywodraeth Cymru gan mai ffigyrau dangosol yw rhain?**<br>SJ: Rydym mewn cyfnod ymgynhori, ond mae'n anhebygol y bydd y sefyllfa bresennol yn newid.<br><br>**KM: Os byddai toriad o 5% bydd hyn yn torri dagau a channoedd o filoedd o gyllideb ysgolion, ellir ymestyn hyn dros nifer o flynyddoedd neu oes rhaid iddo ddod o gyllideb 2023/2024?**<br>SJ: Bydd rhaid iddo gyd ddod o 23/24<br><br>**SR: Yn wyneb maint y toriadau, oni ddylen nig yd fynd i warged ac anfon neges na ellir ymdopi a hyn?**<br>KM: Syniad diddorol, bydd rhaid gweld sut bydd y Cymdeithasau Proffesiynol yn ymateb.<br><br>**DA: Mae'n debygol y bydd effaith ar lefelau staffio, a fydd yr ALl yn cynnig cynllun diswyddo gwirfoddol?**<br>SJ: Yn anffodus bydd swyddi yn cael eu colli, a byddwn yn cynnig ymddeoliad cynnar gwirfoddol, ond mae'r manylion eto i'w trafod.<br><br>SW: Soniwyd bod RhCT yn cynnig cyfweliadau i staff sy'n cael eu diswyddo, byddai hyn yn rhywbeth y gallwn ei drafod gyfa'r undebau llafur.<br><br>Gan nad oedd cwesitynau pellach, daeth y Cadeirydd a'r cyfarfod i ben a diolch i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr. |